**DAVID OWEN**
17 Ffordd Caergybi, Porthaethwy, Bangor, LL56 5EQ
Ffôn: 01248-123456 Symudol: 07766-123456
E-bost: dowen89@hotmail.com
www.linkedin.com/in/[esiampl]

## Addysg

| | |
|---|---|
| 2015 – 2018 | Prifysgol Bangor, Bangor<br>**BA (Anrhydedd) Saesneg 2:1** |
| 2013 – 2015 | Coleg Menai, Bangor<br>**Lefel 'A': Saesneg (A); Mathemateg (B); Seicoleg (C)** |
| 2008 – 2013 | Ysgol Friars, Bangor<br>10 TGAU – graddau A* - C, yn cynnwys Cymraeg (A*), Saesneg (A), Mathemateg (B) |

## Sgiliau Allweddol

**Cyfathrebu**

- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig rhagorol a ddangoswyd trwy gael graddau 2:1 canolig i uchel yn yr holl aseiniadau ysgrifenedig yn y brifysgol
- Sgiliau cyfathrebu llafar wedi'u mireinio trwy fy mhrofiad yn Storm FM lle roeddwn yn chwilio am straeon, cyfweld gwesteion a chyflwyno sioe reolaidd

**Creadigrwydd**

- Dangoswyd hyn trwy ddatblygu ymgyrch gyhoeddusrwydd ar Facebook ar gyfer cynhyrchiad Cymdeithas Ddrama Saesneg Bangor o 'Cat on a Hot Tin Roof' a arweiniodd at werthu tua 20% yn fwy na'r arfer o docynnau ar gyfer y perfformiadau yn Ionawr
- Cynllunio a gweithredu ymgyrch farchnata ar gyfer cystadleuaeth 'Her £10 Byddwch Fentrus'; ein grŵp ni oedd un o'r ychydig a wnaeth elw sylweddol, i raddau helaeth oherwydd yr ymwybyddiaeth eang o'n gwasanaeth glanhau.

**Ymwybyddiaeth Fasnachol**

- Datblygwyd drwy fy her £10 Byddwch Fentrus a thrwy fynychu nifer o weithdai fel rhan o wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang yn 2016.
- Wedi tanysgrifio i *Marketing Week* ac yn ei ddarllen yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwybodaeth gyfredol o'r sector

**Trafod a Pherswadio**

- Sicrhau cytundeb noddi gyda busnes lleol ar gyfer BEDS ar gyfer blwyddyn academaidd 2017-18 a oedd o fudd i'r ddwy ochr ac o fewn y paramedrau roeddwn wedi'u cynllunio
- Datblygu sgiliau perswadio drwy fy aseiniadau a chyflwyniadau yn y brifysgol

**Gallu gweithio dan bwysau**

- Gweithio mewn bar prysur mewn awyrgylch llawn pwysau lle roedd rhaid i mi aros yn ddigynnwrf a chwrtais hyd yn oed wrth ymdrin â chwsmeriaid digywilydd
- Sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith Prifysgol, swydd ran-amser ac ymrwymiadau eraill; yn aml roedd pethau'n cyd-daro, megis arholiadau neu ddyddiadau cyflwyno aseiniadau yn cyd-ddigwydd â chynyrchiadau'r BEDS.

## Profiad Perthnasol

**2017 – 2018** **Cymdeithas Ddrama Saesneg Bangor – Swyddog Cyhoeddusrwydd**

Ar ôl bod yn aelod amlwg o'r gymdeithas yn fy ail flwyddyn, cefais fy ethol yn swyddog cyhoeddusrwydd yn ystod fy mlwyddyn olaf yn y Brifysgol. Fe wnes i gynllunio, rheoli a gweithredu cyhoeddusrwydd y gymdeithas ar gyfer y flwyddyn, gan arwain at gynnydd o 15% yn yr aelodaeth dros y flwyddyn a gwerthwyd yr holl docynnau ar gyfer dau o'r pedwar cynhyrchiad.

**03/2016** **Blasu Gwaith – Cwmni Marchnata Cyf., Bangor**

Yn ystod cyfnod o ddwy wythnos mewn cwmni marchnata arbenigol cefais gyfle i wylio cyfarfodydd â chlientiaid, cysylltu ag argraffwyr, dylunwyr a dosbarthwyr, yn ogystal â gwylio sut roedd y cwmni'n bwriadu anelu at ddarpar glientiaid.

## Profiad Arall

**2015 – presennol** **AnyBar, Porthaethwy**
Gwaith rhan-amser drwy gydol fy nghyfnod yn y brifysgol.

**2015 – 2017** **Storm FM – Ymchwilydd/Cyflwynydd**
Ymchwilio i newyddion a storïau o ddiddordeb i fyfyrwyr, chwilio am westeion a'u cyfweld a chyflwyno sioe wythnosol amser cinio.

**2016** **Her £10 Byddwch Fentrus**
Cymerais ran yn Her £10 adran Byddwch Fentrus Prifysgol Bangor fel aelod o dîm o bum cyd-fyfyriwr. Cawsom £10 a chael y dasg o wneud cymaint â phosibl o elw ohono mewn wythnos. Roeddwn yn gyfrifol am farchnata ein gwasanaeth glanhau i gyd-fyfyrwyr ac fe wnaethom elw o £60.

## Gwybodaeth Ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Ieithoedd:** | Rhugl yn Gymraeg; Ffrangeg sylfaenol |
| **TG:** | Hollol gyfarwydd â holl gymwysiadau arferol Microsoft Office, ymchwilio ar y rhyngrwyd a meddalwedd marchnata A1 |
| **Arall:** | Trwydded yrru lawn a glân ac yn berchen car |
| **Canolwyr:** | Ar gael ar gais. |

Gwasanaeth **Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd**

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Careers & Employability** Service

17 Ffordd Caergybi
Porthaethwy
Bangor
LL56 5EQ

1 Hydref 2017

Mr. Unrhyw Un
Swyddog Adnoddau Dynol
Unrhyw Gwmni Cyf.,
Unrhyw Fan
PP2 2PP

Annwyl Mr Unrhyw Un,

Darllenais â diddordeb eich hysbyseb diweddar yn *Marketing Week* am Hyfforddai Graddedig mewn Marchnata ac amgaeaf fy curriculum vitae i chi ei ystyried.

Dechreuais ymddiddori mewn gyrfa mewn marchnata wrth ymwneud â marchnata Cymdeithas Ddrama Saesneg Bangor yn ystod fy ail flwyddyn yn y Brifysgol. Yn dilyn hynny cefais fy ethol yn Swyddog Cyhoeddusrwydd ar gyfer y Gymdeithas. Fel y gwelwch, ers hynny rwyf wedi ceisio cyfleoedd i gael profiad a datblygu fy sgiliau yn y maes hwn, gan geisio cael profiad mewn amrywiaeth o amgylcheddau a swyddogaethau. Fe welwch o'm CV fod gennyf yr hyn rwy'n deimlo yw'r sgiliau craidd sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus mewn marchnata, ac rwyf yn awr yn chwilio am gyfle a fydd yn rhoi siawns i mi ddatblygu'r sgiliau hyn ymhellach mewn cwmni o faint canolig, sy'n ehangu, fel Unrhyw Gwmni Cyf.

Rwy'n cael fy nenu gan Unrhyw Gwmni Cyf. oherwydd amrywiaeth a dyfnder y profiadau a gynigir yn eich cynllun hyfforddi. Tra bo gennyf y sgiliau craidd sydd eu hangen mewn swydd farchnata, nid wyf eto wedi penderfynu pa gyfeiriad penodol yr hoffwn ei ddilyn yn fy ngyrfa, felly mae'r cyfle i gael profiad yn eich holl feysydd gweithgaredd yn hynod gyffrous. Yn 'Y Ffair Swyddi' yr hydref diwethaf fe wnes gyfarfod â dau o'ch recriwtiaid graddedig diweddar ac fe wnaethant hwy siarad yn frwd am yr awyrgylch gefnogol a llawn anogaeth sydd yn Unrhyw Gwmni Cyf. Mae hynny wedi cryfhau fy nymuniad i ymuno â'ch cwmni.

Byddaf ar gael i weithio o ddechrau Gorffennaf 2018 ac rwyf ar gael ar gyfer cyfweliad ar yr adegau a nodwyd yn eich hysbyseb.

Yn gywir

David Owen

Amg: Curriculum Vitae